

Y CYFANSODDIAD ADRAN 11

11. SWYDDOGION

11.1 Strwythur Rheoli

11.1.1 Cyffredinol

Caiff y Cyngor Llawn gyflogi'r cyfryw staff (y cyfeirir atynt fel Swyddogion) ag y mae'n ystyried sy'n briodol i gyflawni ei swyddogaethau.

11.1.2 Strwythur Rheoli Uwch

Bydd yr uwch dîm rheoli yn cynnwys y Prif Weithredwr a 7 Prif Swyddog.

Prif Weithredwr (a Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig)

Swyddogaethau a Meysydd Cyfrifoldeb

- Rheolaeth gorfforaethol gyffredinol a chyfrifoldeb gweithredol gan gynnwys cyfrifoldeb rheoli cyffredinol am yr holl swyddogion.
- Prif gynghorydd i'r Cyngor ar bolisi cyffredinol.
- Darparu cyngor diduedd proffesiynol i bawb yn y broses o wneud penderfyniadau, (y Bwrdd Gweithredol, Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, y Cyngor Llawn a Phwyllgorau eraill).
- Ar y cyd gyda'r Swyddog Monitro, cyfrifoldeb dros cyfundrefn o gadw cofnodion ar gyfer holl benderfyniadau'r Awdurdod (gweithredol neu fel arall).
- Cynrychioli'r awdurdod ar bartneriaethau a chyrrff allanol (fel sy'n ofynnol gan y ddeddf neu'r Cyngor);
- Rhoi wasanaeth i'r Cyngor cyfan, ar sail amhleidiol.
- Sicrhau llywodraethu corfforaethol cadarn.
- Cymryd cyfrifoldeb am berfformiad corfforaethol cyffredinol.
- Hybu perthnasau Aelodau / Swyddogion iach
- Gweithredu fel Swyddog Canlyniadau a Swyddog Cofrestru Etholiadol

Prif Swyddogion eraill

- Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar
- Prif Swyddog Amgylchedd a Thechnegol
- Prif Swyddog Cyllid a TGCh
- Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
- Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol
- Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid
- Prif Swyddog Tai a'r Economi

11.1.2 Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid

Bydd y Cyngor yn dynodi'r swyddi canlynol fel y dangosir:

Swydd	Dynodiad
Prif Weithredwr	Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig
Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid	Swyddog Monitro
Prif Swyddog Cyllid a TGCh	Prif Swyddog Cyllid
Pennaeth Gwasanaeth, Cyfreithiol, Democrataidd a Chofrestru	Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

Bydd y swyddogaethau a ddisgrifir yn Adrannau 11.2 i 11.5 yn berthnasol i'r swyddi hyn.

11.1.3 Yn yr adran yma golygai unrhyw gyfeiriad at “Brif Swyddog”, Brif Swyddog” o fewn ystyr Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006).

11.1.4 Swyddogion statudol eraill

Yn ogystal a'r swyddogion corfforaethol statudol uchod bydd y Cyngor yn dynodi'r swyddogion statudol eraill fel y ganlyn:

Swydd	Dynodiad	Gweithredoedd Statudol (neu unrhyw ailadroddiad neu ddiwygiad ohonynt)
Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar	Prif Swyddog Addysg	Adran 532 Deddf Addysg 1996
Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol	Adran 6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Leol 1970

11.2 Swyddogaethau Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig

11.2.1 Cyflawni Swyddogaethau gan y Cyngor

Mae Adran 4 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau i ddynodi un o'u swyddogion yn Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig. Bydd Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig yn adrodd i'r Cyngor Llawn ar y ffordd y cydlynir y broses o gyflawni swyddogaethau'r Cyngor, nifer a gradd y staff sydd eu hangen i gyflawni'r swyddogaethau, trefniadaeth staff yr awdurdod, a phenodi staff yr awdurdod a rheolaeth briodol arnynt.

11.2.2 Cyfyngiadau ar Swyddogaethau

Ni chaiff Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig fod yn Swyddog Monitro nac yn Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, ond caiff ddal swydd Prif Swyddog Cyllid os yw'n gyfrifydd cymwysedig.

11.3 Swyddogaethau'r Swyddog Monitro

Amlinellir y rhain yn adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 fel y'i diwygiwyd.

11.3.1 Cynnal y Cyfansoddiad

Bydd y Swyddog Monitro yn cynnal fersiwn gyfredol o'r Cyfansoddiad ac yn sicrhau ei fod ar gael yn eang er mwyn i Aelodau, staff a'r cyhoedd allu cyfeirio ato.

11.3.2 Sicrhau bod y Penderfyniadau a Wneir yn Gyfreithlon ac yn Deg

Ar ôl ymgynghori â Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a'r Prif Swyddog Cyllid, bydd y Swyddog Monitro yn adrodd i'r Cyngor Llawn neu'r Bwrdd Gweithredol mewn perthynas ag unrhyw Swyddogaeth os yw ef/hi o'r farn y byddai unrhyw gynnig, penderfyniad neu hepgoriad yn arwain at anghyfreithlondeb neu os yw unrhyw benderfyniad neu hepgoriad wedi arwain at gamweinyddu. Bydd adroddiad o'r fath yn atal y cynnig neu'r penderfyniad rhag cael ei roi ar waith nes bod yr adroddiad wedi cael ei ystyried.

11.3.3 Cefnogi'r Pwyllgor Safonau

Bydd y Swyddog Monitro yn cyfrannu at hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad trwy gefnogi'r Pwyllgor Safonau.

11.3.4 Derbyn Adroddiadau

Bydd y Swyddog Monitro yn derbyn ac yn gweithredu ar adroddiadau a wneir gan yr Ombwdsmon a phenderfyniadau'r tribiwnlysoedd achos.

11.3.5 Cynnal Ymchwiliadau

Bydd y Swyddog Monitro yn cynnal ymchwiliadau i faterion a atgyfeirir gan yr Ombwdsmon ac yn llunio adroddiadau neu'n gwneud argymhellion mewn perthynas â hwy i'r Pwyllgor Safonau.

11.3.6 Swyddog Priodol ar gyfer Mynediad at Wybodaeth

Bydd y Swyddog Monitro yn sicrhau bod penderfyniadau Gweithredol, ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny, ac adroddiadau gan Swyddogion perthnasol a phapurau cefndir ar gael yn gyhoeddus cyn gynted â phosibl.

11.3.7 Cyngori ynghylch pa un a yw penderfyniadau'r Bwrdd Gweithredol o fewn y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi

Bydd y Swyddog Monitro, ar y cyd â'r Prif Swyddog Cyllid, yn cyngori ynghylch pa un a yw penderfyniadau'r Bwrdd Gweithredol yn unol â'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi.

11.3.8 Rhoi Cyngor

Bydd y Swyddog Monitro yn rhoi cyngor i'r Cynghorwyr ar faterion yn ymwneud â chwmpas pwerau a'r awdurdod i wneud penderfyniadau, camweinyddiaeth, amhriodoldeb ariannol, uniondeb a'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi.

11.3.9 Cyfyngiadau ar Swyddi

Ni chaiff y Swyddog Monitro fod yn Brif Swyddog Cyllid, Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig na'r Pennaeth Gwasanaethau Democraidd.

11.4 Swyddogaethau'r Prif Swyddog Cyllid

Amlinellir y rhain yn adran 6 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 fel y'i diwygiwyd.

11.4.1 Sicrhau Cyfreithlondeb a Doethineb Ariannol y Penderfyniadau a Wneir

Ar ôl ymgynghori â Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a'r Swyddog Monitro, bydd y Prif Swyddog Cyllid yn adrodd i'r Cyngor Llawn neu'r Bwrdd Gweithredol mewn perthynas â Swyddogaeth Weithredol, ac archwilydd allanol y Cyngor os yw ef/hi o'r fam y bydd unrhyw gynnig, penderfyniad neu ffordd o weithredu yn golygu gwariant anghyfreithlon, neu'n anghyfreithlon ac yn debygol o achosi colled neu ddiffyg neu os yw'r Cyngor ar fin cofnodi eitem o'r cyfrifon yn anghyfreithlon.

11.4.2 Gweinyddu Materion Ariannol

Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor.

11.4.3 Cyfrannu at Reolaeth Gorfforaethol

Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn cyfrannu at reolaeth gorfforaethol y Cyngor, yn enwedig trwy ddarparu cyngor ariannol proffesiynol.

11.4.4 Rhoi Cyngor

Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn rhoi cyngor i'r holl Gyngorwyr ar faterion yn ymwneud â chwmpas pwerau a'r awdurdod i wneud penderfyniadau, camweinyddiaeth, amhriodoldeb ariannol, uniondeb a'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi, a bydd yn cefnogi a chynghori Cyngorwyr a Swyddogion yn eu rolau priodol.

11.4.5 Rhoi Gwybodaeth Ariannol

Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn rhoi gwybodaeth ariannol i'r cyfryngau, aelodau'r cyhoedd a'r gymuned.

11.4.6 Cynghori ynghylch pa un a yw penderfyniadau'r Bwrdd Gweithredol o fewn y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi

Bydd y Prif Swyddog Cyllid, ar y cyd â'r Swyddog Monitro, yn cynghori ynghylch pa un a yw penderfyniadau'r Bwrdd Gweithredol yn unol â'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi.

11.4.7 Cyfyngiadau ar Swyddi

Ni chaiff y Prif Swyddog Cyllid fod yn Swyddog Monitro na'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

11.5 Swyddogaethau'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

Amlinellir y rhain yn adran 9 y Mesur. Swyddogaethau'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yw:

11.5.1 rhoi cymorth a chyngor i'r awdurdod mewn perthynas â'i gyfarfodydd, yn amodol ar baragraff 11.5.10;

11.5.2 rhoi cymorth a chyngor i bwyllgorau'r awdurdod (heblaw am y pwyllgorau a grybwyllir ym mharagraff 11.5.5) ac aelodau'r pwyllgorau hynny, yn amodol ar baragraff 11.5.10;

11.5.3 rhoi cymorth a chyngor i unrhyw gydbwyllgor y mae awdurdod lleol yn gyfrifol am ei drefnu ac aelodau'r pwyllgor hwnnw, yn amodol ar baragraff 11.5.10;

11.5.4 hyrwyddo rôl Pwyllgorau Craffu yr awdurdod;

11.5.5 rhoi cymorth a chyngor i:

- (a) Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu yr awdurdod ac aelodau'r pwyllgorau hynny; a
- (b) Phwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yr awdurdod ac aelodau'r pwyllgor hwnnw;
- (c) rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr awdurdod i bob un o'r canlynol:

- (i) aelodau'r awdurdod;
- (ii) aelodau gweithrediaeth yr awdurdod;
- (iii) swyddogion yr awdurdod.

11.5.6 rhoi cymorth a chyngor i bob aelod o'r awdurdod mewn perthynas â chyflawni rôl aelod o'r awdurdod, yn amodol ar baragraff 11.5.11;

11.5.7 llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas ag unrhyw un o'r canlynol:

- (a) nifer a gradd y staff sydd eu hangen i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd;
- (b) penodi staff i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd;
- (c) trefniadaeth staff sy'n cyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd a rheolaeth briodol arnynt;

11.5.8 y cyfryw swyddogaethau eraill ag y gellid eu pennu gan y gyfraith.

11.5.9 Cyfyngiadau ar Swyddi

Ni chaiff y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod yn Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Monitro na'r Prif Swyddog Cyllid.

11.5.10 Mae rhoi cyngor ynghylch pa un a ddylai swyddogaethau'r cyngor gael eu harfer neu pa un a ddylent fod wedi cael eu harfer, neu sut y dylai swyddogaethau'r cyngor gael eu harfer neu sut y dylent fod wedi cael eu harfer, yn berthnasol dim ond i gyngor yn ymwneud â swyddogaethau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

11.5.11 Nid yw cyngor i Aelod yn cynnwys cyngor mewn perthynas â'i rôl fel Aelod gweithredol ac nid yw'n cynnwys cyngor ynghylch mater sy'n cael ei ystyried mewn cyfarfod neu y bwriedir ei ystyried mewn cyfarfod heblaw am gyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu neu'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

11.6 Dyletswydd i Ddarparu Adnoddau Digonol i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

Bydd y Cyngor yn darparu'r cyfryw Swyddogion, llety ac adnoddau eraill i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ag y mae'n ystyried sy'n ddigonol i ganiatáu ar gyfer cyflawni eu dyletswyddau.

11.7 Ymddygiad

Bydd Swyddogion yn cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Swyddogion a'r Protocol ar Gysylltiadau Swyddogion/Aelodau a amlinellir yn Adrannau 20 a 21 y Cyfansoddiad hwn.

11.8 Cyflogaeth

Bydd y drefn ar gyfer recriwtio, dethol a diswyddo Swyddogion yn cydymffurfio â'r Rheolau Cyflogaeth Swyddogion a amlinellir isod.

11.9 Rheolau Trefn Cyflogi Swyddogion

11.9.1 Diffiniadau

Mae'r Rheolau hyn wedi eu cynllunio i gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2014).

(Mae cyfeiriadau at "Ddeddf 1989" yn cyfeirio at Ddeddf Tai a Llywodraeth Leol 1989).

- (1) Mae "Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig" (Prif Weithredwr) yn golygu'r Swyddog a ddynodwyd fel Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig y Cyngor dan Adran 4 o Ddeddf 1989.
- (2) Mae "Prif Swyddog Cyllid" neu "Swyddog A151" (Prif Swyddog Cyllid a TGCh) yn golygu'r Swyddog a benodwyd at ddibenion Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 73 Deddf Llywodraeth Leol 1985 neu Adran 112 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.
- (3) Mae "Swyddog Monitro" (Prif Swyddog Llywodrethu a Chwsmeriaid) yn golygu'r Swyddog a ddynodwyd dan Adran 5 (1) o Ddeddf 1989.
- (4) Prif Swyddog Statudol (Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar a Phrif Swyddog Gwasanaethau Gofal) a grybwyllir ym mharagraffau (a) (c) neu (d) adran 2(6) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Tai 1989; neu
- (5) Prif Swyddog Anstatudol (Prif Swyddogion) (o fewn ystyr adran 2 (7) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989).
- (6) Mae Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn golygu'r swyddog a ddynodwyd dan Adran 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

- (7) Mae Aelod o staff yn golygu'r person a benodwyd neu sy'n dal swydd gyflogedig neu gyflogaeth gyda'r Cyngor.
- (8) Mae Camau Disgyblu yn golygu:

Mewn perthynas ag aelod o staff y Cyngor unrhyw gamau a gaiff eu peri gan gamymddygiad honedig a fyddai o'i brofi, yn ôl trefn arferol y Cyngor, yn derbyn cosb o dan Bolisi Disgyblu'r Cyngor ac yn cynnwys unrhyw rybudd a roddir ar gyfer y cyfnod a ddisgrifir, cynnig i ddiswyddo aelod o staff am unrhyw reswm heblaw dileu swydd neu salwch parhaol, ond nid yw'n cynnwys methiant i adnewyddu contract cyflogaeth am gyfnod penodol oni bai bod yr awdurdod perthnasol wedi ymgymryd i adnewyddu contract o'r fath.

11.9.2 Recriwtio a Phenodi

- (a) Perthnasau Aelodau neu Swyddogion
 - (1) Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer unrhyw benodiad ddatgan yn eu cais os ydynt yn perthyn i Aelod neu unrhyw berson a gyflogir gan y Cyngor. Bydd unrhyw un sy'n methu â gwneud hyn yn cael ei wahardd, neu, os caiff ei benodi, bydd yn agored i ddiswyddiad ar unwaith ar sail camymddwyn difrifol.
 - (2) Rhaid i Aelodau a Rheolwyr hysbysu'r Prif Swyddog priodol os ydynt yn gwybod bod ymgeisydd yn perthyn iddynt. Rhaid i'r Brif Swyddog sicrhau bod y corff penodi yn ymwybodol o'r berthynas.
 - (3) Rhaid i Aelodau a Rheolwyr hysbysu Prif Swyddog priodol yn ysgrifenedig os oes perthynas yn cael ei benodi.
 - (4) Rhaid i bob ymgeisydd fod yn ymwybodol o'r rheolau hyn.
 - (5) At ddibenion y Rheol Sefydlog, mae perthynas yn golygu:-
 - (a) person sy'n byw fel gŵr/gwraig neu bartner.
 - (b) rhiant neu blentyn.
 - (c) nain neu daid neu ŵyr neu wyres.
 - (d) brawd neu chwaer.
 - (e) ewythr neu fodryb.
 - (f) nai neu nith.

- (6) Rhaid i unrhyw gyflogai neu Aelod ar Banel Recriwtio sydd yn cymryd rhan mewn proses recriwtio a dethol wneud datganiad i'r Prif Swyddog perthnasol os yw ymgeisydd yn perthyn iddynt neu os oes ganddynt berthynas bersonol agos. (Rhaid i'r person hwnnw beidio cymryd unrhyw ran bellach yn y broses recriwtio a dethol).
 - (7) Yn yr un modd, rhaid i unrhyw reolwr neu oruchwyliwr sy'n darganfod bod perthynas, neu ffrind o'r tu allan i'r amgylchedd gwaith, wedi gwneud cais am swydd mewn adran o dan eu rheolaeth, ddatgan y ffaith hon i'w Prif Swyddog. Mae hyn yn berthnasol p'un a yw'r rheolwr neu oruchwyliwr yn bwriadu cymryd rhan yn y broses ddethol ai peidio.
- (b) Canfasio ac Argymhelliad gan Aelodau a Swyddogion.
- (1) Bydd ymgeiswyr am benodiad (mewnol neu allanol) yn cael eu hanghymhwyso os ydynt yn canfasio Aelodau o'u plaid.
 - (2) Ni chaiff Aelod neu Swyddog rhoi geirdaon ysgrifenedig i gyd-fynd â chais allanol.
 - (3) O dan unrhyw amgylchiadau ni chaiff bobl sydd wedi cytuno i fod yn ganolwyr ar gyfer ymgeisydd cymryd rhan yn y broses recriwtio (mewnol neu allanol).
 - (4) Os caiff penderfyniad recriwtio ei herio ar unrhyw gam, neu ei drafod yn fanwl gan Aelod nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol, rhaid i'r Swyddog perthnasol wneud nodyn o'r sgwrs a bod yn barod i roi gwybod i'r awdurdod priodol amdano yn nes ymlaen, os oes angen.

11.9.3 Penodi Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig

Bydd y cyngor llawn yn cymeradwyo penodiad y Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig yn dilyn argymhelliad penodiad o'r fath gan bwyllgor neu is-bwyllgor o'r Cyngor. Rhaid i'r pwyllgor neu is-bwyllgor hwnnw gynnwys o leiaf un aelod o'r bwrdd gweithredol, ond ni chaniateir mwyafrif o aelodau o'r bwrdd gweithredol. Lle mae'r tâl yn £100,000 neu fwy, rhaid i'r swydd gael ei hysbysebu'n gyhoeddus oni bai bod y cyfnod penodiad yn ddim mwy na 12 mis.

11.9.4 Penodi Prif Swyddogion

- (1) Pan fydd swydd wag yn codi mewn unrhyw swyddfa bresennol y Prif Swyddog bydd y Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad gan y Prif Weithredwr ac ar hynny bydd yn penderfynu a yw'r swydd yn angenrheidiol.
- (2) Pan gynnigir penodi Prif Swyddog, bydd y Prif Weithredwr yn (tynnu cyfeiriad at benodiad mewnol) -

- (a) Ilunio Swydd-Ddisgrifiad a Manyleb Person yn nodi:-
 - (i) dyletswyddau'r Swyddog dan sylw; ac
 - (ii) unrhyw gymwysterau neu nodweddion y ceisir yn y person i'w benodi.
 - (b) gwneud trefniadau i'r swydd gael ei hysbysebu yn y fath fodd ag y mae'n debygol o ddod ag hi i sylw personau sy'n gymwys i wneud cais amdani. Lle mae'r tâl yn £100,000 neu fwy, rhaid i'r swydd gael ei hysbysebu'n gyhoeddus oni bai bod y cyfnod penodiad yn ddim mwy na 12 mis.
 - (c) gwneud trefniadau i gopïau o'r Swydd-Ddisgrifiad a Manyleb Person a grybwyllir ym mharagraff (a) i gael ei anfon at unrhyw berson ar gais.
- (3) Pan fo swydd wedi ei hysbysebu fel y darperir ym mharagraff 2(b), bydd Pwyllgor a benodwyd gan y Cyngor, a gynghorir gan y Prif Weithredwr yn:-
- (a) cyfweld yr holl ymgeiswyr cymwys am y swydd, neu yn
 - (b) dewis rhestr fer o ymgeiswyr cymwys a chyfweld y rhai ar y rhestr fer.
- (4) Bydd holl benodiadau i swyddi'r Prif Swyddogion yn cael eu gwneud gan Bwyllgor a benodwyd gan y Cyngor, a gynghorwyd gan y Prif Weithredwr. Rhaid i Bwyllgor o'r fath gynnwys o leiaf un aelod o'r bwrdd gweithredol, ond ni chaniateir mwyafrif o aelodau o'r bwrdd gweithredol.

11.9.5 Penodiadau eraill

- (a) Swyddogion islaw Prif Swyddog. Cyfrifoldeb y Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig neu ei h/enwebai yw penodi Swyddogion islaw Prif Swyddog, ac ni ellir ei wneud gan gynghorwyr.
- (b) Cynorthwyyr i Grwpiau Gwleidyddol. Rhaid i benodiadau cynorthwyydd i grŵp gwleidyddol gael eu gwneud yn unol â dymuniadau'r grŵp gwleidyddol hwnnw.

11.9.6 Newidiadau i Taliadau'r Prif Weithredwr a Phrif Swyddogion

Mae penderfyniadau i benderfynu neu amrywio tâl y Prif Weithredwr a Phrif Swyddogion i gael eu gwneud gan y Cyngor ac ni ellir eu dirprwyo i bwyllgor.

11.9.7 Camau disgyblu - Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, Swyddog

Monitro, Prif Swyddog Cyllid a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd

- (1) Ni fydd dim camau disgyblu (heblaw camau y mae para (2) isod yn gymwys iddynt) mewn perthynas â Phennaeth Gwasanaeth Cyflogedig y Cyngor, ei Swyddog Monitro, ei Brif Swyddog Cyllid neu Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, yn cael eu cymryd gan y Cyngor, neu gan Pwyllgor, Is-Bwyllgor, Cydbwyllgor y mae'r Cyngor yn cael ei gynrychioli arno neu unrhyw berson arall sy'n gweithredu ar ran y Cyngor, ac eithrio yn unol ag argymhelliad mewn adroddiad a wnaed gan berson annibynnol dynodedig dan Reoliad 9 o Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 (ymchwilio i gamymddwyn honedig), fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2014. Mae'r rheolau manwl yn ymddangos yn Adran 8 isod.
- (2) Y camau y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo yw atal y Swyddog dros dro at y diben o ymchwilio i'r camymddwyn honedig sy'n peri'r cam; os yw atal dros dro o'r fath ar gyflog llawn ac yn dod i ben ddim hwyrach nac ar derfyn dau fis sy'n dechrau ar y diwrnod y daw'r atal dros dro i rym.

11.9.8 Ymchwilio i gamymddwyn honedig - Pennaeth y Gwasanaeth

Cyflogedig, Prif Swyddog Cyllid, Swyddog Monitro a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd

- (1) Os yw'n ymddangos i'r Cyngor bod honiad o gamymddwyn a all arwain at gamau disgyblu wedi ei wneud yn erbyn -
 - (a) Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig y Cyngor;
 - (b) ei Swyddog Monitro;
 - (c) ei Brif Swyddog Cyllid ("y swyddog perthnasol") yn ôl y digwydd neu
 - (d) Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

rhaidd i'r Cyngor benodi pwyllgor ("pwyllgor ymchwilio") i ystyried y camymddwyn honedig.
- (2) Rhaid i'r pwyllgor ymchwilio:
 - (a) gynnwys o leiaf 3 aelod o'r Cyngor;

- (b) fod yn wleidyddol gytbwys yn unol ag Adran 15 o Ddeddf 1989; a rhaid iddo, o fewn 1 mis ar ôl ei benodiad, ystyried yr honiad o gamymddwyn a phenderfynu a ddylid ymchwilio iddo ymhellach.
- (3) At ddibenion ystyried yr honiad o gamymddwyn, caiff y pwyllgor ymchwilio:
- (a) holi'r swyddog perthnasol neu unrhyw berson arall y mae'n ystyried sy'n briodol;
 - (b) gofyn i'r swyddog perthnasol neu unrhyw berson arall y mae'n ystyried sy'n briodol i roi iddo unrhyw wybodaeth, eglurhad neu ddogfennau y mae'n ystyried sy'n angenrheidiol o fewn terfyn amser penodedig; a
 - (c) derbyn sylwadau ysgrifenedig neu lafar oddi wrth y swyddog perthnasol neu unrhyw berson arall y mae'n ystyried sy'n briodol.
- (4) Os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ymchwilio y dylai honiad o gamymddwyn gan y swyddog perthnasol gael ei ymchwilio ymhellach, rhaid iddo benodi unigolyn ("yr unigolyn annibynnol dynodedig").
- (5) Rhaid i'r unigolyn annibynnol dynodedig a benodir -
- (a) fod yn berson y cytunir arno rhwng y Cyngor a'r swyddog perthnasol o fewn 1 mis o'r dyddiad y mae'r gofyniad i benodi'r person annibynnol dynodedig wedi codi; neu
 - (b) lle nad oes cytundeb o'r fath; rhaid iddo fod yn berson a enwebir at y diben gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
- (6) Gall yr unigolyn annibynnol dynodedig -
- (a) gyfarwyddo -
 - (i) bod yr awdurdod perthnasol yn diweddu unrhyw ataliad dros dro ar y swyddog perthnasol;
 - (ii) bod unrhyw ataliad dros dro o'r fath i barhau ar ôl diwedd y cyfnod y cyfeirir ato yn Adran 7 (2) uchod;
 - (iii) bod y telerau ar gyfer unrhyw ataliad dros dro o'r fath yn cael eu hamrywio yn unol â'r cyfarwydddy; neu
 - (iv) nad oedd unrhyw gamau (p'un ai gan y Cyngor neu unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog sy'n gweithredu ar ran y Cyngor) ar ffurf camau disgyblu

neu gamau disgyblu pellach yn erbyn y swyddog perthnasol, heblaw camau a gymerir ym mhresenoldeb, neu gyda chytundeb, y person annibynnol dynodedig, i gael eu cymryd cyn i adroddiad gael ei wneud o dan is-baragraff (d);

- (b) arolygu unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud ag ymddygiad y swyddog perthnasol sydd ym meddiant y Cyngor neu y mae gan y Cyngor y pŵer i awdurdodi'r person annibynnol dynodedig i'w harchwilio;
 - (c) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw aelod neu aelod o staff y Cyngor ateb cwestiynau ynghylch ymddygiad y swyddog perthnasol;
 - (d) rhaid iddo lunio adroddiad i'r Cyngor -
 - (i) yn datgan barn ynghylch a yw (ac, os felly, i ba raddau) y dystiolaeth a gafwyd yn ategu unrhyw honiad o gamymddwyn yn erbyn y swyddog perthnasol; ac
 - (ii) argymhell unrhyw gamau disgyblu sy'n ymddangos yn briodol i'r awdurdod perthnasol eu cymryd yn erbyn y swyddog perthnasol; ac
 - (e) rhaid dim hwyrach na'r amser y llunnir yr adroddiad o dan is-baragraff (d) anfon copi o'r adroddiad at y swyddog perthnasol.
- (7) Yn ddarostyngedig i baragraff (8), rhaid i'r swyddog perthnasol a'r Cyngor, ar ôl ymgynghori â'r person annibynnol dynodedig, geisio cytuno ar amserlen y mae'r person annibynnol dynodedig i ymgymryd â'r ymchwiliad.
- (8) Lle nad oes cytundeb o dan baragraff (7), rhaid i'r person annibynnol dynodedig osod amserlen y mae'r person hwnnw'n ystyried sy'n briodol ar gyfer yr ymchwiliad i gael ei gynnal.
- (9) Rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad a baratowyd gan y person annibynnol o dan baragraff (6) (d) uchod o fewn 1 mis o dderbyn yr adroddiad hwnnw.
- (10) Rhaid i'r Cyngor dalu tâl rhesymol i berson annibynnol dynodedig a benodwyd gan y pwyllgor ymchwilio ac unrhyw gostau a dynnir gan, neu mewn cysylltiad â, chyflawni swyddogaethau o dan y rheolau hyn.
- (11) Mae pwyllgor disgyblu'r Cyngor: -

- (a) yn cynnwys o leiaf 3 aelod o'r Cyngor, ac
- (b) yn wleidyddol gytbwys yn unol ag Adran 15 o Ddeddf 1989 (ond heb gynnwys y bobl hynny a fu'n gwasanaethu ar y pwyllgor ymchwilio) a bydd yn ystyried yr adroddiad o dan baragraff (9) uchod, ynghyd â sylwadau gan y swyddog y gwnaed yr honiadau yn ei erbyn, yn unol â gweithdrefnau disgyblu manwl y Cyngor. Bydd apêl i'r Cyngor llawn o benderfyniad y Pwyllgor hwn, ac eithrio yn achos Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig (os felly bydd y Cyngor yn ystyried apêl, neu'n cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor os na wneir apêl).

11.9.9 Diswyddo

Ni fydd cynghorwyr yn cymryd rhan yn diswyddo unrhyw swyddog islaw Prif Swyddog ac eithrio lle mae cynnwys Aelodau penodol yn angenrheidiol ar gyfer unrhyw ymchwiliad neu ymchwiliad i gamymddwyn honedig neu pan fo Bennaeth dynodedig y Gwasanaethau Democrataidd yn Swyddog islaw lefel Prif Swyddog.